Nicola Stubbins
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Nicola Stubbins,

**Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Yn unol â'n cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL13 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw’r awdurdod lleol a’i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy’n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo’r awdurdod lleol a’i bartneriaid i wella’n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn – Mai 2019
- cyfarfodydd ag uwch-reolwyr
- gweithgarwch â phwyslais penodol o ran gwasanaethau oedolion – Ionawr 2020
- gweithgarwch ymgysylltu â gwasanaethau oedolion hŷn
- gweithgarwch â phwyslais penodol o ran gwasanaethau plant – Rhagfyr 2019
- adborth/gwybodaeth a gafwyd
- adolygu gwybodaeth am berfformiad

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

**Llesiant**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cael budd o dîm uwch-reolwyr profiadol a gwybodus. Mae gan uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae ffocws ar waith atal a llesiant yn effeithio ar ganlyniadau i bobl, cynaliadwyedd gwasanaethau a llwyddiant yr awdurdod lleol cyfan.

Yn ystod y flwyddyn, gwelsom dystiolaeth i ddangos newid cadarnhaol wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth ac archwiliadau mewnol. Gwnaethom gyfarfod ag ymarferwyr ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau plant, a siaradodd yn frwd am eu gwaith a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd llawer ohonynt yn croesawu'r ymreolaeth a gafwyd o'r ffyrdd newydd o weithio o dan Ddeddf 2014 a dywedwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Roeddem ar ddeall bod ymarferwyr yn cael budd o'r cyfleoedd hyfforddi a oedd ar gael iddynt, er bod gofynion gwaith ar y rheng flaen yn golygu na ellir achub ar bob un o'r cyfleoedd hynny.

Mae gwasanaethau oedolion yn gwella eu dull o ymdrin â sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau gan sicrhau canlyniadau da i lawer o bobl. Ym mis Ionawr 2020, bu modd i ni adrodd ar welliannau sylweddol wrth ddiogelu oedolion. Bu modd i ymarferwyr ddangos sut roeddent yn gwrando ar y canlyniadau roedd y bobl am eu cyflawni, a sut roeddent yn cefnogi'r bobl i weithio'n greadigol tuag at yr hyn a oedd yn bwysig iddynt. Mae'r amseroldeb, y cofnodi, y dadansoddi proffesiynol a'r broses o wneud penderfyniadau i gyd wedi gwella yn ystod y flwyddyn.

Mae llawer o gofnodion ysgrifenedig da iawn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae'r cofnodion yn dangos yn glir y gwaith cadarnhaol mae'r ymarferwyr wedi'i gyflawni, mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi'r plant sydd fwyaf agored i niwed mewn amgylchiadau anodd dros gyfnodau estynedig. Mae'r tîm uwch-reolwyr wedi adnewyddu ei broses archwilio gyda phwyslais ar sicrhau bod yr holl waith cymdeithasol yn cyrraedd y safonau uchel hyn, a bod pob plentyn yn cael cymorth amserol ac effeithiol.

**Pobl**

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych ddealltwriaeth ddigonol o'r ffordd y gall pobl gael budd o wybodaeth, cyngor a chymorth a thrwy gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion.

Nid yw'r awdurdod lleol bob amser yn llwyddiannus wrth reoli'r cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar gryfderau oedolion fel ffordd o gynnal eu hannibyniaeth a dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau i sicrhau bod canlyniadau asesiadau'n cael eu cofnodi ar yr adnodd asesu a chymhwysedd. Mae'n rhaid i'r cofnod gynnwys cofnodion o'r cyngor a'r wybodaeth a roddir, ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnal canlyniadau asesiadau ni waeth beth fo adnoddau ariannol yr unigolyn, a hynny yn unol â Deddf 2014.

Mae brwdfrydedd a chreadigrwydd newydd wedi gwella'r prosiect cyllidebau a gefnogir ac, yn ddiweddar, mae nifer y bobl sy'n cael cynnig mwy o ddewis o ran sut maent yn rheoli eu gofal a'u cymorth wedi cynyddu.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Mae'r broses o recriwtio ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn her. Mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn drwy weithio'n galed i annog a chefnogi staff sy'n awyddus i ddysgu siarad Cymraeg.

Mae cadw a recriwtio gweithwyr cymdeithasol i blant yn dod yn fwy o her yn yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n ystyried y ffordd mae'n recriwtio ac yn cadw gweithwyr sydd newydd gymhwyso ac yn cydnabod yr her a wynebir gan weithwyr mwy profiadol sy'n cyflawni rolau mentora.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw’r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau i wella safon yr asesiadau o alluedd meddyliol a gynhelir gan ymarferwyr. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn barod ar gyfer newidiadau i'r  Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

**Atal**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol o'r her barhaus a wynebir wrth ddarparu gofal cartref a sut mae hyn yn cael effaith negyddol ar y bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae uwch-reolwyr wedi ein sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth iddynt a'u bod yn

archwilio opsiynau gwahanol i fynd i'r afael â gallu'r farchnad. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amlder adolygiadau diwedd lleoliad. Rydym yn ymwybodol bod yr awdurdod lleol yn cynnal cyfarfodydd tarfu a chyfarfodydd am leoliadau yn chwalu, a'i fod yn dysgu o brofiad. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod amseroldeb yn broblem iddo. Eleni, mae'r awdurdod lleol wedi dysgu pa mor bwysig yw cyfathrebu rhwng gweithwyr cymdeithasol mewn awdurdodau lleol gwahanol a allai fod yn lleoli plant yn yr un lleoliad.

**Partneriaethau**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ar y cyfan yng Nghyngor Sir Ddinbych. Mae gwasanaethau tai, hamdden ac iechyd yr amgylchedd yn gweithio gyda'i gilydd i greu cyfleoedd i adeiladu cydnerthedd cymunedol, ac mae dwyn ynghyd wasanaethau cymdeithasol ac addysg plant mewn blynyddoedd blaenorol yn parhau i ddarparu buddiannau a chyfleoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gymryd rhan weithredol yn y broses o weithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol, a chaiff ei gyfraniad ei nodi'n gadarnhaol gan ei bartneriaid.

Mae gwasanaethau plant yn parhau i weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau newydd a gwella cymorth i blant a theuluoedd. Mae ffocws cadarnhaol ar ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir, i leddfu straen yn y cartref a lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen gofal ar blant y tu allan i gartref y teulu.

Mae datblygu Timau Adnoddau Cymunedol mewn gwasanaethau oedolion yn dangos tystiolaeth o gydweithio da rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r ffaith bod ymarferwyr wedi'u cydleoli ac yn gweithio mewn timau ar y cyd yn eu galluogi i rannu gwybodaeth a phrofiad proffesiynol, lleihau dyblygu adnoddau a chyd-gynhyrchu canlyniadau gwell i bobl.

## Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Canolbwyntiodd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer 2019-2020 ar waith atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn; a gwaith atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Yn anffodus, o ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgarwch sy'n ymwneud â'r adolygiad o wasanaethau i blant anabl.

Ein bwriad yw cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol. Rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Yn ystod hydref 2019, cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i dreialu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Dyma un enghraifft o'r ymdrech i gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn dysgu o'r profiad ac yn rhoi'r agweddau cadarnhaol ar waith.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn